# Gwobr John Muir
# Llyfr Cofnodi

GWOBR JOHN MUIR
*ardaloedd gwyllt:*
DARGANFYDDWCH
ARCHWILIWCH
GWARCHODWCH
RHANNWCH

Mae Gwobr John Muir
yn eich herio i

## Ddarganfod ardal wyllt





## Ei harchwilio hi




## Gwneud rhywbeth i'w gwarchod




## Rhannu'ch profiadau

Cofnodi'ch profiadau mewn geiriau, lluniau, barddoniaeth, brasluniau, caneuon . .

JOHN MUIR TRUST
DROS DIR A MANNAU *gwyllt*

Prif fenter addysgol
Ymddiriedolaeth John Muir

Enw

# Mae'r Llyfr Cofnodi hwn yn eiddo i:

Enw:

Grŵp:

Cyfeiriad:

Côd post:

Ffôn:

**Llyfr Cofnodi Gwobr John Muir**

Defnyddiwch eich llyfr i gofnodi'ch profiadau wrth i chi weithio drwy weithgareddau Gwobr John Muir.

Tynnwch luniau, brasluniwch neu beintiwch. Ysgrifennwch ddyfyniadau, storïau, caneuon, enwau pethau, barddoniaeth, neu gwnewch nodiadau bras i'ch atgoffa o'r hyn rydych wedi ei wneud. Gludwch bethau ynddo.

Does dim rheol bendant ynglŷn â'r ffordd o lenwi'ch llyfr. Rydym ni'n gobeithio na fydd unrhyw ddau yr un fath.

Does dim angen anfon eich Llyfr Cofnodi atom ni wedi i chi gwblhau Gwobr John Muir. Rhywbeth personol i chi gael cofio'r hyn a wnaethoch chi ydi o.

"Does dim teithwyr ar Long Ofod y Ddaear. Aelodau o'r criw ydym ni i gyd."

**Marshall McLuhan**



*Gwobr John Muir yw prif fenter addysgol Ymddiriedolaeth John Muir.*

*This publication is supported by Heritage Lottery Fund and Scottish Natural Heritage.*

# Beth yw Gwobr John Muir?

**Gwobr amgylcheddol sy'n rhoi sylw i ardaloedd gwyllt.**

- Mae'n eich annog i fwynhau'r awyr agored, i ddod i wybod mwy am fyd natur ac am ardaloedd gwyllt, a gwneud rhywbeth i warchod yr ardaloedd hyn.
- Nid cystadleuaeth mohoni a gall unrhyw un gymryd rhan.

**Er mwyn ennill Gwobr John Muir, rhaid i chi gyflawni pedair her**

## Darganfyddwch ardal (neu ardaloedd) gwyllt i chi'ch hun

Gall fod yn dir yr ysgol neu yn ardd gefn, neu yn fannau y byddwch yn ymweld â nhw ar deithiau neu wyliau.



## Archwiliwch eich ardal wyllt

Dewch i wybod mwy amdani ac am ei byd natur, defnyddiwch eich synhwyrau i gyd, teithiwch drwyddi . .



## Gwarchodwch – cymerwch gyfrifoldeb

Gwnewch rywbeth i warchod ardaloedd gwyllt a byd natur.



## Rhannwch eich profiadau

Gadewch i eraill wybod beth fuoch yn ei wneud, beth gyflawnoch chi a beth ddysgoch chi.



Gallwch gymryd rhan gyda grŵp sefydledig sydd ag arweinydd i drefnu pethau ar eich cyfer, neu gallwch ddod yn rhan o Wobr John Muir ar eich pen eich hun.

Cewch ragor o wybodaeth ar www.johnmuiraward.org.

Mae syniadau ac adnoddau i'ch helpu chi i 'roi rhywbeth yn ôl' ar www.johnmuiraward.org/makeadifference.

# Pwy oedd John Muir?

## Ddylai o olygu unrhyw beth i mi?



Ganed John Muir yn 1838 yn nhref bysgota Dunbar yn yr Alban. Datblygodd gariad mawr tuag at fyd natur pan oedd yn dal yn blentyn. Tyfodd hyn yn daith gydol oes o ddarganfod, archwilio a gwarchod ardaloedd gwyllt, gan rannu ei brofiadau ag eraill.

Yn 11 mlwydd oed, mudodd gyda'i deulu i America. Yno, yn ei gartref newydd, daeth yn adnabyddus fel sylfaenydd mudiad cadwraeth y byd, a helpodd i sefydlu'r Parc Cenedlaethol cyntaf.

Arloesodd John Muir yn yr hyn a alwn ni'n ecoleg – y syniad bod anifeiliaid, planhigion a phobl i gyd wedi eu cysylltu â'i gilydd ac â'u hamgylchedd.

'Pan geisiwn gydio mewn un peth ar ei ben ei hun, fe welwn ei fod yn sownd wrth bopeth arall yn y bydysawd.'

Os yw John Muir ei hun yn ymddangos yn ffigwr pell i rai, mae ei neges – y dylem brofi, mwynhau, a gwarchod ardaloedd gwyllt – yn berthnasol i'n bywydau ni i gyd yn yr 21ain ganrif.

Y neges hon sydd wrth wraidd Gwobr John Muir. Mae'n eich annog i ddilyn yn ôl troed John Muir, a phrofi, mwynhau a gwarchod ardaloedd gwyllt drosoch chi eich hun.

'Pan oeddwn i'n fachgen yn yr Alban, roeddwn i'n hoff o bopeth gwyllt ac wrth i mi dyfu a heneiddio rwyf wedi magu mwy o hoffter at ardaloedd gwyllt ac at greaduriaid gwyllt. Yn ffodus iawn, o amgylch fy nhref enedigol yn Dunbar, lle roedd Môr y Gogledd yn ffromi, doedd dim ond diffeithwch. Yng nghwmni ffrindiau anturus a gwyllt fel fi fy hun, roeddwn i wrth fy modd yn crwydro'r caeau yn gwrando'r adar yn canu, ac ar hyd glan y môr i syllu a rhyfeddu at y cregyn a'r gwymon, y llyswennod a'r crancod, yn y pyllau ymysg y creigiau pan oedd y llanw'n isel.'
**John Muir**

# Beth yw Ymddiriedolaeth John Muir?

Elusen yw Ymddiriedolaeth John Muir gyda'r nod o sicrhau fod

ardaloedd gwyllt yn cael eu gwerthfawrogi gan bob rhan o gymdeithas, a bod Tir Gwyllt yn cael ei warchod ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym 1983 ac mae'n hybu neges Muir drwy brynu ardaloedd allweddol o dir gwyllt, eu rheoli'n sensitif ac ymgyrchu i'w diogelu. Mae'r ymddiriedolaeth yn berchen ar 8 darn o dir gwyllt, gan gynnwys Ben Nevis, mynydd uchaf Prydain.

Lansiwyd Gwobr John Muir gan yr Ymddiriedolaeth ym 1997 fel ei phrif fenter addysgol.

Mae croeso i chi ymuno ag Ymddiriedolaeth John Muir fel unigolyn, fel teulu neu fel mudiad.

I wybod mwy ewch i www.johnmuirtrust.org neu ffoniwch 01769 470080.



Llun o Fae Sandwood gan John Comrie o Academi Morrison's, Crieff. Mae John wedi cwblhau ei Lefel Archwiliwr yn ddiweddar ac enillodd wobr gyda'r llun hwn yn y gystadleuaeth Ffocws ar gyfer ysgolion.

# Geiriau Gwyrdd Allweddol

| Geiriau Gwyrdd Allweddol | |
|---|---|
| Mynediad | yr hawliau sydd gan y cyhoedd i fod mewn mannau penodol yn yr awyr agored, a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth hynny |
| Bioamrywiaeth | holl gyfoeth bywyd, popeth byw o'n cwmpas |
| Cadwraeth | gofal ac amddiffyn; rhwystro dinistr neu esgeulustod tuag at fyd natur a'r amgylchedd naturiol |
| Ecoleg | y syniad bod perthynas rhwng anifeiliaid, planhigion, bodau dynol a'r amgylchedd |
| Cynefin | cartref planhigion ac anifeiliaid |
| Rhywogaethau | mathau o fywyd gwyllt |
| Cynaladwyedd | byw ar y blaned fel pe baem ni am aros yma |
| Ardaloedd gwyllt | ardaloedd ag iddynt gymeriad naturiol lle dewch o hyd i fywyd gwyllt; ardaloedd diffaith. |



# Ffurf Gwobr John Muir

**Er mwyn cyflawni unrhyw un o lefelau Gwobr John Muir mae'n rhaid i chi wneud cyfres o weithgareddau sy'n cynnwys y pedair her ganlynol:**

Darganfod ardal wyllt
Archwilio'i gwylltineb
Gwarchod ardal wyllt
Rhannu'ch profiadau

Mae tair Lefel i Wobr John Muir – **Lefel Ddarganfod**, **Lefel Archwilio** a **Lefel Gwarchod**. Y bwriad yw dringo o un lefel i'r llall.

| Gwobr Ddarganfod | Gwobr Archwilio | Gwobr Gwarchod |
|---|---|---|
| **4 diwrnod** (neu gyfwerth) yw'r isafswm amser sydd ei angen | **8 diwrnod** (neu gyfwerth) yw'r isafswm amser sydd ei angen | **20 diwrnod** (neu gyfwerth) dros gyfnod o 6 mis o leiaf. |
| Lefel Ragarweiniol → | Lefel Ganolradd → | Lefel Uwch |

Caiff y pedair her eu hailadrodd ar gyfer pob Lefel, gyda mwy o ymrwymiad o ran amser, gweithgarwch, cyfrifoldeb a pherchnogaeth bob tro.

**Er mwyn cyflawni Gwobr John Muir, rhaid i chi**

- Wynebu'r pedair her – Darganfod, Archwilio, Gwarchod, Rhannu
- Roi'r amser sy'n ofynnol
- Ddangos brwdfrydedd ac ymroddiad tuag at eich rhan yng Ngwobr John Muir
- Fod ag ymwybyddiaeth o John Muir
- Weithio gyda staff profiadol a chymwys, os yw hynny'n addas i'ch gweithgareddau

# Chi, Bioamrywiaeth a Gwobr John Muir

## Beth yw hyn?

### Bioamrywiaeth – dyma 'holl gyfoeth bywyd'

'Bioamrywiaeth yw 'popeth byw', o forgrugyn lleiaf yr ardd i'r Ffynidwydden anferthol. Mae bioamrywiaeth ym mhobman, mewn bocs ffenest ac mewn coed gwyllt, ar ymyl y ffordd ac mewn coedwig law, mewn meysydd eira, ar lan y môr ac yn yr awyr.'
**Magnus Magnusson**

### Pam fod bioamrywiaeth yn bwysig?

Rydym ni i gyd yn rhan o'r cyfoeth bywyd anhygoel hwn. Yn bwysicach fyth, mae arnom ni ei angen! Bioamrywiaeth yw system gynnal bywyd ein planed ac mae'n ein helpu mewn amryw o ffyrdd, gan roi:

- Bwyd, meddyginiaethau a deunyddiau eraill
- Amgylchedd glân ac iach
- Lliw a harddwch i'n hamgylchedd
- Hwb i'r ysbryd a therapi adferol
- Rhan bwysig o'n celfyddydau, ein diwylliannau a'n traddodiadau

Mae'n hanfodol ein bod yn gofalu am ein bioamrywiaeth. Mae'n bwysig gwarchod bywyd gwyllt ac ardaloedd gwyllt nid yn unig er eu mwyn eu hunain, ond er mwyn cynnal ein lles ein hunain i'r dyfodol hefyd. Mae amgylchedd iach i fyw a chwarae ynddo yn dibynnu ar fioamrywiaeth.

Er nad yw nifer o bobl yn ymwybodol o'r term 'Bioamrywiaeth', cytuna 99% o bobl fod gwarchod amrywiaeth bywyd gwyllt a phlanhigion yn bwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Beth sydd a wnelo Bioamrywiaeth â Gwobr John Muir?

Mae Bioamrywiaeth yn ymwneud ag ardaloedd gwyllt a byd natur–mae a wnelo fo â chynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n byw ynddyn nhw. Gallwch ddysgu am Fioamrywiaeth (Archwilio), gwneud rhywbeth er mwyn cynnal, gwella neu gofnodi Bioamrywiaeth (Gwarchod), a gadael i eraill wybod am yr hyn rydych wedi ei ddysgu a'r hyn a wnaethoch chi dros Fioamrywiaeth (Rhannu).

BIODIVERSITY
THE VARIETY OF LIFE

## Beth allwch chi ei wneud?

### Dysgu mwy . . .

Mae Cynlluniau Bioamrywiaeth Lleol mewn grym ar draws Prydain. Maen nhw'n sôn am bethau sydd angen eu gwneud yn eich ardal chi er mwyn helpu Bioamrywiaeth. Dewch o hyd i'ch un chi drwy fynd i www.ukbap.org.uk. Mae gan bob ardal ei Swyddog Bioamrywiaeth ei hun, a bydd y swyddog hwn yn ffynhonnell gwybodaeth, syniadau ac adnoddau.

Ewch i www.arkive.org – cofnod gweledol a chlywadwy cwbl unigryw o fioamrywiaeth y byd. 'Arch Noa ar gyfer oes y rhyngrwyd'.

### Gwnewch arolygon, casglwch ddata . . .

Mae gwefan y Rhwydwaith Ffenoleg Cenedlaethol yn cynnwys Calendr Natur, Ditectif Natur ac arolygon Gwylio'r Gwanwyn er mwyn cofnodi'r hyn rydych chi wedi ei weld wrth astudio bywyd gwyllt Prydain- www.phenology.org.uk. Mae'n cynnwys llwyth o wybodaeth hwylus ar gyfer ysgolion, teuluoedd a phlant.

Ymunwch ag arolygon natur y BBC – cewch wybodaeth a chysylltiadau ar eu tudalennau gwyddoniaeth a natur - www.bbc.co.uk/sn.

### Creu neu wella cynefinoedd . . .

Gallwch greu a chynnal llefydd addas i bethau gael byw a thyfu – gerddi bywyd gwyllt, gwrychoedd, 'coridorau bywyd gwyllt' – yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

### Newid hinsawdd a llygredd . . .

Edrychwch ar y ffordd rydych chi a'ch sefydliad yn defnyddio adnoddau ac egni, ac effaith hyn ar natur ac ar ardaloedd gwyllt. Gwnewch archwiliad. Trefnwch 'ddiwrnod arbed egni'. Ewch ati i arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu. Mesurwch eich ôl troed ecolegol – faint o adnoddau rydych chi'n eu defnyddio o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael ar y blaned. Ewch i www.wwf.org.uk neu i www.myfootprint.org.

### Rhywogaethau estron. . .

Gall rhai mathau o blanhigion ordyfu mewn ardal a gwthio rhai eraill allan. Cewch wared arnynt er mwyn helpu planhigion eraill i fynnu.

### Lluniwch eich Cynllun Bioamrywiaeth eich hun . . .

Ar gyfer eich gardd, ysgol, tir eich canolfan neu ardal wyllt leol.

### Darllenwch a rhannwch straeon . . .

am gynefinoedd a rhywogaethau ar www.biodiversitystories.co.uk.

# Chi, Mynediad i Fannau Awyr Agored a Gwobr John Muir

## Beth sydd a wnelo Mynediad i Fannau Awyr Agored â Gwobr John Muir?

Mae Gwobr John Muir yn eich annog i fwynhau bod yn yr awyr agored, a hynny mewn ffordd gyfrifol. Dyma'n union beth mae cyfreithiau a rheolau Mynediad i Fannau Awyr Agored yn ceisio ei egluro a'i hybu.

Gallwch archwilio ardal o ran hwylustod ei defnyddio. Pwy yw'r gwahanol bobl sy'n defnyddio ardal? Beth maen nhw'n ei wneud yno a sut maen nhw'n cydweithio? Ysgwyddwch gyfrifoldeb (Gwarchod) drwy ddeall y materion hyn, eich hawliau a'ch cyfrifoldebau, ac ymddwyn yn briodol. Rhannwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth er mwyn helpu eraill i fod yn gyfrifol. Bydd hyn yn cynyddu eich mwynhad chithau hefyd.

## Egluro Mynediad i Fannau Awyr Agored

Mae'r holl dir yng nghefn gwlad yn eiddo i rywun. Mae hyd yn oed tir sy'n edrych fel na bai'n cael ei ddefnyddio yn eiddo i rywun, ac fe allai fod sawl pwrpas pwysig iddo, i bori defaid, er enghraifft , i gasglu dŵr yfed, neu yn gynefin i fywyd gwyllt.

Dyw hyn ddim yn golygu bod yn rhaid i chi gadw at y ffyrdd na mwynhau cefn gwlad drwy ffenestri'ch car yn unig. Mae rheolau mynediad yn berthnasol i barciau trefol a rhwydweithiau llwybrau, i'n bryniau a'n fforestydd, i dir amaethyddol, caeau ymylol, traethau, llynnoedd ac afonydd.

Mae rheolau mynediad yn cyfeirio at nifer o weithgareddau, gan gynnwys er enghraifft:

- Gweithgareddau anffurfiol, megis cael picnic, ffotograffiaeth a mwynhau golygfeydd.
- Gweithgareddau ymarferol, gan gynnwys cerdded, beicio, marchogaeth, canŵio a gwersylla gwyllt.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau hamdden ac addysgol
- Mynd o un lle i'r llall

Dyw hyn ddim yn golygu y gallwch chi fynd i le mynnoch chi, fodd bynnag. Mae yna lefydd nad oes gennych chi hawl fynd iddyn nhw, fel adeiladau a'r ardal o'u cwmpas, neu dai a'u gerddi, neu'r rhan fwyaf o dir ble mae cnydau'n tyfu.

Mae'r gyfraith yn wahanol yn yr Alban i'r hyn ydi hi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n werth cadw hynny mewn cof fel y gallwch chi wneud penderfyniadau doeth. Mae cyfrifoldebau ynghlwm â'ch hawliau mynediad, ond y prif beth yw defnyddio synnwyr cyffredin.

## Yr Alban

### Gwybod y Rheolau cyn i chi fynd . . .

Mwynhewch awyr agored yr Alban – yn gyfrifol!

Mae gan bawb yr hawl i fod ar y rhan fwyaf o diroedd a dyfroedd mewndirol cyn belled â'u bod yn ymddwyn yn gyfrifol. Mae'ch hawliau a chyfrifoldebau mynediad wedi eu hegluro'n llawn yng Nghôd Mynediad i Fannau Awyr Agored yr Alban.

Prun ai ydych chi yn yr awyr agored neu'n gwneud gwaith cadwraethol, yr hyn sy'n allweddol yw eich bod:

- Yn gyfrifol am eich gweithredoedd eich hun
- Yn parchu buddiannau pobl eraill
- Yn gofalu am yr amgylchedd

Dysgwch fwy drwy ymweld â www.oudooraccess-scotland.com neu ffoniwch eich swyddfa Treftadaeth Naturiol leol.

## Cymru a Lloegr

Cewch fanylion am y Côd Cefn Gwlad, adnoddau addysgol, a chyfieithiadau i'r Gymraeg ar www.countrysideaccess.gov.uk

I wybod mwy am gefn gwlad Cymru ewch i www.ccw.gov.uk

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Gofalwch eich bod yn gwarchod planhigion ac anifeiliaid, ac ewch â'ch sbwriel gartref
- Cadwch eich ci yn agos atoch chi
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

## Gogledd Iwerddon

Mudiad ymbarél yw Rhwydwaith Mynediad Cefn Gwlad a Gweithgareddau Gogledd Iwerddon sy'n cysylltu grwpiau a chyrff sydd â diddordeb neu sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden cefn gwlad yng Ngogledd Iwerddon.

Their website - www.countrysiderecreation.com has current information on access issues, and the Northern Ireland Country Code.

## Beth mae hyn i gyd yn ei olygu i chi?

T Mae Côd Mynediad i Fannau Awyr Agored yr Alban yn cynnig arweiniad ymarferol a defnyddiol. Pan fyddwch yn yr awyr agored, eich dyletswydd chi yw:

### Gofalu am yr amgylchedd

Mae ein hamgylchedd yn cyfrannu tuag at ansawdd eich bywyd a'ch iechyd. Mae'n bwysig eich bod yn:

- Dilyn unrhyw gyngor a gwybodaeth resymol
- Mynd â'ch sbwriel gartref
- Gofalu am ardaloedd, gan eu gadael fel y cewch chi nhw
- Peidio amharu'n ddifeddwl ar fywyd gwyllt neu lefydd hanesyddol na'u difrodi'n fwriadol.
- Cadw'ch ci dan reolaeth briodol

### Parchu preifatrwydd a thawelwch meddwl pobl

Mae preifatrwydd yn bwysig i bawb. Dylech osgoi dychryn pobl, yn enwedig gefn nos, drwy gadw'n ddigon pell o dai a gerddi preifat, neu drwy ddefnyddio llwybrau neu draciau.

### Byddwch yn gyfrifol am eich gweithredoedd eich hun

Mae'r awyr agored yn lle gwych i fwynhau ond mae hefyd yn fan lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, ac mae yno nifer o beryglon naturiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r rhain ac yn ymddwyn yn ddiogel. Dilynwch unrhyw gyngor rhesymol a pharchwch anghenion pobl eraill sy'n mwynhau neu'n gweithio yn yr awyr agored.

### Helpwch ffermwyr, tirfeddianwyr ac eraill i weithio'n ddiogel ac effeithiol

Cadwch bellter diogel rhyngoch chi ag unrhyw waith a chwiliwch am arwyddion sy'n rhoi gwybod bod gweithgareddau peryglus yn digwydd, megis torri coed neu chwistrellu cnydau. Helpwch hefyd drwy wneud yn siŵr eich bod yn:

- Gadael giatiau fel y cewch chi nhw
- Peidio cau neu rwystro mynedfa neu drac
- Chwilio am ffordd arall yn hytrach na mynd i gae ag anifeiliaid ynddo
- Peidio bwydo anifeiliaid
- Gwrando ar gyngor lleol fel y gallwch roi ystyriaeth i saethu a hela
- Peidio difrodi ffensys neu waliau
- Osgoi difrodi cnydau gan ddefnyddio llwybrau a thraciau neu ymylon caeau

# Rhannwch yr hyn rydych chi'n ei wneud

Rhannodd John Muir ei gariad tuag at ardaloedd gwyllt drwy sgwrsio ac ysgrifennu llyfrau. Roedd ganddo'r ddawn i gysylltu â phobl ar lefel bersonol- yn dilyn trip gwersylla gyda Muir, ysbrydolwyd Yr Arlywydd Roosevelt i sefydlu Parc Cenedlaethol cyntaf y byd.

**Drwy rannu'ch meddyliau a'ch teimladau gallwch chithau hefyd ysbrydoli ac addysgu eraill am eich ardal wyllt chi a'ch profiad o Wobr John Muir.**

Chi biau'r dewis ynglŷn â sut i wneud hyn. Dyma rai syniadau . . .

ysgrifennu cerdd

defnyddio natur i greu cerflun amgylcheddol neu ddarn celfyddydol

perfformio drama

gwneud bwrdd arddangos

creu taflen wybodaeth neu boster am eich ardal wyllt chi

llunio sioe sleidiau

creu stori gyda lluniau neu eiriau ar gyfer gwefan eich ysgol neu eich clwb a'i chysylltu hi â gwefan Gwobr John Muir

creu cerddoriaeth

paentio neu dynnu llun

sgwrsio o amgylch y tân am y diwrnod

tynnu lluniau

gwneud arolwg o'r 4 Her

mynd â ffrindiau ar daith natur

cynnal ysgol

'Ar ben bryn Ronas teimlais yn falch. Roeddwn i'n mwynhau eistedd a meddwl. Teimlais fel pe bai gen i rym dros yr aer ac y gallwn arnofio i'r awyr a hedfan ac edrych i lawr ar ddiffeithwch hyfryd yr ardal. Roedd hi'n wych bod yn uwch na phopeth heb ffiniau rhwng y ddaear a'r awyr.

Rhannodd **Ysgol Gynradd Urafirth,** Shetland eu profiadau drwy gyfrwng gwefan Gwobr John Muir

'Gwyntoedd mwyn yn siffrwd, suo gri, a'r canghennau brau yn dawnsio yn yr awyr lwydaidd fry.'

Detholiad o gerdd a ysbrydolwyd gan ymweliad i ddiffeithwch Cumbria

'Pont rhwng cerddoriaeth a'r amgylchedd.'

**Andy Halsey,** Musiclinks



GWOBR JOHN MUIR

*ardaloedd gwyllt:*
DARGANFYDDWCH
ARCHWILIWCH
GWARCHODWCH
RHANNWCH

Pan fyddwn yn meddwl am y byd cyfan fel un diferyn enfawr, yn frith o ynysoedd a chyfandiroedd, yn gwibio trwy'r gofod gyda'r holl sêr eraill, pob un yn canu ac yn disgleirio gyda'i gilydd yn un, mae'r Bydysawd cyfan yn ymddangos fel storm anfeidrol o brydferthwch. Mae'r sioe fawreddog hon yn dragwyddol. Bydd yr haul wastad yn codi yn rhywle. Nid yw'r gwlith i gyd yn sychu ar unwaith. Bydd cawod wastad yn disgyn yn rhywle; ac anwedd yn esgyn trwy'r amser. Mae'r haul yn codi ac yn machlud yn dragwyddol, y dydd yn gwawrio ac yn nosi yn dragwyddol, ar fôr, ar gyfandiroedd ac ar ynysoedd, pob un yn ei dro wrth i'r Ddaear gron droi. *John Muir*

*gyda*

GWOBR DDARGANFOD

I GYDNABOD
YMWYBYDDIAETH A CHYFRIFOLDEB
DROS FANNAU GWYLLT

**John Hutchison**
*Cadeirydd,* John Muir Trust

JOHN MUIR TRUST
DROS DIR A MANNAU *gwyllt*

MENTER ADDYSG GAN YMDDIRIEDOLAETH JOHN MUIR

# Cysylltu â phwy?

GWOBR JOHN MUIR

*ardaloedd* gwyllt: DARGANFYDDWCH ARCHWILIWCH GWARCHODWCH RHANNWCH

**Os hoffech chi wybod mwy am Wobr John Muir, cysylltwch â'ch Rheolwr Rhanbarthol – manylion ar www.johnmuiraward.org – neu:**


John Muir Award
41 Commercial Street
EDINBURGH  EH6 6JD, UK

**Ffôn:** 0131 554 0114
**E-bost:** info@johnmuiraward.org
**Gwefan:** www.johnmuiraward.org


Cyswllt rhanbarthol:

Ymddiriedolaeth John Muir yw elusen cadwraeth tir gwyllt mwyaf blaenllaw Prydain. Rydym yn caru llefydd gwyllt ac yn ymroddedig i'w gwarchod a'u gwella i bobl a bywyd gwyllt. Mae gennym ni dros 10,000 o aelodau sy'n cefnogi'n gwaith. Os ydych yn gofalu am y byd naturiol, beth am ymuno â ni. **www.johnmuirtrust.org**.

**Am wybodaeth ynglŷn ag Ymddiriedolaeth John Muir, cysylltwch ag:**


Ymddiriedolaeth John Muir
Tower House
Station Road
Pitlochry
PH16 5AN

**Ffôn:** 01769 470080
**E-bost:** admin@jmt.org
**Gwefan:** www.johnmuirtrust.org



Partners:

Cairngorms National Park Authority
Lake District National Park
yha be inspired
The Outward Bound Trust Adventures for life

Funders:

Scottish Natural Heritage Dualchas Nadair na h-Alba
heritage lottery fund LOTTERY FUNDED
Supported by players of People's Postcode Lottery



The John Muir Trust is a Scottish charitable company limited by guarantee
(Charity No SC002061 Company No SC081620). Registered office: Tower House, Station Road, Pitlochry PH16 5AN